# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 17eg o Fedi 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng H James, W Evans. J Phillips and K Bowen (clerc)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng. R Gallie, D Lewis, P Walton, G Evans and J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 9fed o Orffennaf a derbyniwyd nhw yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:** Dim

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD:**

Mae adroddiad yr archwilydd allanol wedi ei dderbyn ac roedd 'na ddim materion wedi eu codi. Fe dynnwyd sylw y Cyngor am yr eisiau i ddiweddaru'r rhestr o asedau sefydlog yn rheolaidd. Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad a nodwyd yr argymhelliad.

**CAE CHWARAE BLAENWAUN :**

Hysbysodd cyfreithwyr Red Kite y Cyngor fod eu pryniant o Gae Chwarae Blaenwaun wedi ei gwblhau.

**GOHEBIAETH:**

Hysbysodd CSC o gynnig BT i ddileu dau focs ffôn cyhoeddus o fewn y plwyf. Doedd dim galwadau wedi ei wneud o naill ffôn yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Penderfynodd y Cyngor i beidio gwrthwynebu dileu kiosk Blaenwaun ond fe wnaethont wthwynebu dileu y kiosk yn Llanwinio.

Hysbysodd CSC y Cyngor eu bod yn awyddus i gael rhagor o weithwyr i weithio mewn gorsafoedd pleidleisio . Dylai unrhyw un sydd a diddordeb gysylltu a Amanda Bebb, Rheolwr Gwasanaethau Pleidleisio nail ai drwy e-bost: Abebb@sirgar.gov.uk neu drwy'r post: Bloc 4, Swyddfa Etholiad, Parc Myrddin, Teras Richmond, Caerfyrddin, SA31 1HQ

Cafwyd gwybodaeth hefyd oddi wrth CSC ynglyn y drefn ar gyfer isetholiad pan fod lle gwag ar y Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd llythyr ynglyn a rhwystr ar lon werdd. Hysbyswyd CSC a fe wnaeth swyddog o'r adran Briffyrdd ymweld a pherchenog y tir dan sylw.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Llywodraeth Cymru fod rhaid i awdurdodau cyhoeddus (yn cynnwys Cynghorau Cymuned a Thref) o dan Deddf yr Amgylchedd 2016 Rhan 6 baratoi a chyhoeddu cynllun yn gosod allan beth maent yn golygu ei wneud i gydymffurfio efo'r dyletswydd i gadw a ehangu bioamrywiaeth o fewn ei llefydd gwaith cyfredol. Disgwylir cyfarwyddyd pellach oddi wrth Llywodraeth Cymru yn fuan.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| J King – rhent tir | £346.88 |
| CCC – praesept ail- daliad | £2666.67 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru – Cae chwarae Blaenwaun 9/1 – 11/7/19 | £14.80 |
| SSE – trydan neuadd gymuned 24/3 – 23/7/19 | £44.85 |
| Red Kite Solicitors – prynu cae chwarae a chostau | £24,743.56 |
| DM Payroll Services Ltd – gwsanaeth talu 2019/20 | £61.75 |
| HMRC – PAYE 2018/19 | £200.00 |
| K Bowen – treuliau'r clerc 2018/19 | £118.30 |

**CYNLLUNIO:**

W/39173 – Ymestyn a newidiadau i annedd ynn Fron Isaf, Cwmbach, Hendygwyn SA34 0DR – CYNLLUNIO LLAWN

PA/16894 – Bwriad i droi capel i le byw yn Capel y Graig, Cwmbach, Hendygwyn SA34 0DR – Ymgynghoriad Cyn-Gais Statudol.

**U.F.A.**

Awgrymwyd dau le ar gyfer y cinio blynyddol – Caffi Beca, Efailwen a'r Old Board School, San Cler efo nos Sadwrn 18fed o Ionawr 2020 fel dyddiad posibl.

I alluogi pob cynghorydd i fynychu cyfarfodydd penderfynwyd newid y noson i nos Fercher yn lle nos Fawrth. I ddechrau efo cyfarfod Tachwedd.

Gan fod na ddim rhagor o fusnes diolchodd y Gadair i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos FERCHER 20fed o DACHWEDD 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**